# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Medi 2017 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym Modlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 o'r gloch y bore.

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons, R Fairhead a G Brandrick (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| I D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MEHEFIN 2017

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19 Mehefin eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 MATERION BRYS

4.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r PST roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnig cyflog i'r diffoddwyr tân. Roedd yr aelodau wedi cael gwybod am y datblygiadau drwy gydol y trafodaethau rhwng Cyd-gyngor yr NJC ac Undeb yr FBU. Yr wythnos ddiwethaf, roedd Undeb yr FBU wedi gwrthod y cynnig cyflog diweddaraf, sef 2% o godiad ar Orffennaf 2017 a 3% o godiad posibl pellach ar Ebrill 2018. Roedd ATAGC wedi cyllidebu ar gyfer 1% o godiad cyflog yn 2017-18, ond mae'n aneglur a fydd Undeb yr FBU a'r Cyd-gyngor Cenedlaethol yn dod i gytundeb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Nodwyd hefyd y bydd y cynllun treialu gofal meddygol brys/cyd-ymateb yn dod i ben ar 18 Medi 2017 o ganlyniad o'r trafodaethau am gyflogau.

4.2 **PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r cynnig cyflog i ddiffoddwyr tân.**

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Mehefin a Medi 2017 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y bydd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Dawn Docx yn gadael GTAGC ym mis Rhagfyr. Mae'r DBST wedi cael ei phenodi'n Ddirprwy Swyddog Tân Sirol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Manceinion Fwyaf. Diolchodd y Cadeirydd i'r DBST am 11 mlynedd o wasanaeth ymroddedig, sydd wedi cynnwys rheoli cyllidebau'r Gwasanaeth yn ystod adegau anodd tra hefyd yn cynnal darpariaeth ragorol. Ymunodd yr aelodau â'r Cadeirydd i longyfarch y DBST gan ddymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD YR AWDURDOD YN 2016-17

6.1 Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod ynghyd ag adroddiad cydraddoldeb blynyddol 2016-17. Dan y ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio a chyhoeddi asesiad blynyddol o'i ddata perfformiad a chydraddoldeb, ac eleni mae'r wybodaeth wedi cael ei chyfuno mewn un ddogfen.

6.2 Aeth y DBST â'r aelodau drwy ran gyntaf y ddogfen, a oedd yn rhoi asesiad o'r modd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, ac o'i gynnydd mewn perthynas â'r amcanion gwella a osododd iddo'i hun ar gyfer y llynedd. Roedd hefyd yn rhoi crynodeb o'i berfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol a mesurau llwyddiant. Yna, rhoddodd y PSTC Simmons gyflwyniad ar yr adran data cydraddoldeb yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ar awdurdodau tân ac achub yng Nghymru i lunio cynllun cydraddoldeb strategol bob pedair blynyddol ac i gyhoeddi, erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, adroddiad ynghylch cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwnnw.

6.3 Roedd yr aelodau'n croesawu'r ddogfen, a chawsant gyfle i ofyn cwestiynau. O ran y data cydraddoldeb, roedd yr aelodau'n falch o weld y gwaith sy'n mynd ymlaen ym maes cefnogaeth i iechyd meddwl a hefyd ym maes hyfforddi staff i ganfod arwyddion o gam-drin domestig. Nodwyd bod cyllid wedi dod i law ar gyfer y fenter Golau Glas (Blue Light Initiative – Mind) sef rhaglen o hyfforddiant ar faterion iechyd meddwl, a bydd staff yn cael eu gwahodd i hyfforddi fel hyrwyddwyr iechyd meddwl ymhob rhan o'r Gwasanaeth. Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad ac roedd y Prif Swyddog Tân yn dymuno diolch yn ffurfiol i awduron y ddogfen, sef y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a'r Swyddog Cydraddoldeb, am lunio dogfen gynhwysfawr.

6.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod a'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni ei amcanion gwella a chydraddoldeb yn ystod 2016-17, er mwyn ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2017;**

**(ii) nodi y bydd taflen bapur liwgar, yn rhoi crynodeb o gynnydd yr Awdurdod wrth gyflawni ei amcanion gwella, yn cael ei chyhoeddi hefyd cyn diwedd y flwyddyn.**

7 ALLDRO AMCANOL 2017-18

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi alldro amcanol wedi'i amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, ac esboniodd yr amrywiadau i wahanol benawdau'r gyllideb.

7.2 Yr amcangyfrif yw bod angen £229,794 o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb ar gyfer 2017-2018. Nodwyd y gallai'r swm gynyddu os bydd tywydd gwael dros fisoedd y gaeaf.

7.3 Fel y gofynnwyd, mae adroddiad yr alldro amcanol yn cynnwys gwybodaeth erbyn hyn am y grantiau a ddyfarnwyd i'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Nodwyd bod swyddogion yn dal i geisio sicrhau cyllid arall er mwyn i waith y tîm cymorth cymunedol (CAT) allu parhau yn y tymor hir. Ers lansio'r tîm cymorth cymunedol yn Awst 2016, roedd wedi ymateb i fwy na 600 o alwadau ac yn 96% o'r achosion, nid oedd angen sylw yn yr ysbyty ar yr unigolyn a oedd wedi cwympo, felly roedd hynny wedi creu arbediad o ryw 900 o oriau o ran amser parafeddygon.

7.4 I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau am gost dillad a'u golchi, cadarnhawyd mai'r rheswm dros y gost ychwanegol oedd nifer y recriwtiaid newydd a oedd wedi ymuno â'r Gwasanaeth. Roedd angen cyfarpar amddiffyn personol llawn a gwisgoedd ar bob un er mwyn cyflawni'r hyfforddiant.

7.5 **PENDERFYNWYD nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod.**

8 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS 2017-18

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar reoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus yn yr Awdurdod. Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2017, wedi adolygu'r cynnwys yn fanwl ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau o bwys ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

8.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r dangosyddion darbodus diwygiedig a nodir yn atodiad A i'r adroddiad.**

9 DATGANIAD O GYFRIFON 2016-17 AC ISA260

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r aelodau gymeradwyo'r datganiad archwiliedig o gyfrifon 2016-17 a'r datganiad llywodraethu blynyddol. Roedd copi o adroddiad datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael ei ddosbarthu hefyd; roedd Mark Jones ac Amanda Hughes o Swyddfa Archwilio Cymru yno i gyflwyno canfyddiadau'r Swyddfa i'r aelodau.

9.2 Aeth y Trysorydd â'r aelodau drwy'r adroddiad gan esbonio'r gwaith sy'n gysylltiedig â llunio'r datganiad o gyfrifon. Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, ac roedd aelodau'r pwyllgor hwnnw wedi argymell bod canfyddiadau adroddiad yr archwilwyr yn cael eu rhoi ar waith. Cadarnhaodd y Cyng. Skelland, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fod y datganiad o gyfrifon wedi cael ei drafod ar 11 Medi ac y bydd y Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y newidiadau i'r gweithdrefnau yn ei gyfarfod nesaf.

9.3 Yna, aeth Mark Jones ac Amanda Hughes â'r aelodau drwy'r adroddiad ar archwilio datganiadau ariannol gan dynnu sylw at rai o'r materion yr oeddent wedi'u canfod yn natganiad o gyfrifon yr Awdurdod. I gloi, fe wnaethant gadarnhau bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu rhoi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol.

9.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon archwiliedig 2015-16;**

**(ii) nodi y bydd canfyddiadau'r adroddiad ar archwilio datganiadau ariannol yn cael eu rhoi ar waith yn llwyr.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. D Wisinger y cyfarfod.

10 DYFARNIAD CYFLOG Y PRIF SWYDDOGION

10.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gefnogi'r cytundeb, mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2017, y daeth Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigadau Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Leol iddo. Cyngor y Trysorydd oedd y gallai'r Awdurdod, petai'n penderfynu peidio â chefnogi'r cytundeb, fod yn torri'r contract sydd ganddo â phrif swyddogion gan fod y dyfarniad cyflog yn rhan o gontractau cyflogaeth prif swyddogion.

10.2 **PENDERFYNWYD cefnogi penderfyniad y Cyd-gyngor Cenedlaethol fel y nodir uchod.**

11 Y PWYLLGOR SAFONAU: SWYDDI GWAG

11.1 Rhoddodd y Clerc wybod i'r aelodau fod cyfnod swydd dau aelod o'r Pwyllgor Safonau yn mynd i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Felly, bydd angen i'r Awdurdod recriwtio dau aelod annibynnol newydd; mae gan Gyngor Sir y Fflint swydd wag ar ei Bwyllgor Safonau ac yn ysbryd cydweithio ac arbed arian ar y broses recriwtio, cytunwyd y bydd ATAGC a Chyngor Sir y Fflint yn rhannu'r broses recriwtio. Bydd angen panel cyfweld, yn cynnwys aelodau o'r ddau awdurdod, ac yna bydd y panel yn cymeradwyo'r ymgeiswyr llwyddiannus i'r awdurdodau er mwyn cael cefnogaeth yr aelodau yn eu cyfarfodydd ym mis Rhagfyr.

11.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd;**

**(ii) dosbarthu manylion y swydd ymhob awdurdod lleol a'u pwyllgorau safonau.**

12 COFNODION CYFARFODYDD

12.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn eu cyflwyno er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017
- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2017.

12.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**